# Clecs Camwy

Papur Bro Dyffryn Camwy Mai 2012




Clecs Camwy
Papur Cymraeg Dyffryn Camwy Mai 2011

Eisteddfod Trevelin

Y Goron a'r Gadair i Gamwy

Roedd Clwb Fontana Trevelin dan ei sang dros benwythnos olaf mis Ebrill, gyda phobl yno o bob cwr o'r dalaith - a'r byd - ar gyfer yr Eisteddfod.

Tro'r plant oedd hi i ddangos eu doniau ddydd Gwener, ac roedd y cystadlu'n frwd - dawnsio gwerin, adrodd a chanu. Mae yna blant dawnus dros ben yn y Dyffryn, a nifer ohonyn nhw wedi dod i'r brig. Da iawn chi!

Daeth cyfle i'r oedolion ddangos eu doniau hwythau brynhawn dydd Sadwrn. Roedd safon yr ail ddiwrnod o gystadlu hefyd yn uchel, a chafodd y gynulleidfa amser braf yn gwylio amrywiaeth o berfformiadau ar y llwyfan.

Cyhoeddwyd enwau enillwyr y cystadlaethau ffotograffiaeth ac ysgrifenedig ar y dydd Sadwrn. Ac yn goron ar yr holl gystadlu oedd prif seremoniau'r Eisteddfod.

Yn fuddugol yng nghystadleuaeth y Goron am ei cherdd Sbaeneg oedd Silvia Noemi Vilar de Roca o Gaiman. Cariad oedd thêma'r gerdd, gan ganolbwyntio ar gariad rhwng gŵr a gwraig.

Cipiodd Owen Tydur Jones o Drelew y Gadair, am ei gyfres o benillion Cymraeg heb fod dros 60 llinell - 'Hen Drol Cadfan'.

Dyma'r drol gyntaf gafodd ei gwneud yn y Wladfa, nôl yn 1866, ac mae'r bardd yn meddwl am ddyddiau cynnar ac anodd y Cymry yma, a'u gwaith caled yn trin y tir. Mae'n gweld olion ei gyndeidiau ar hyd yr ardal, ac yn hiraethu am y gorffennol. Mae'r drol bellach i'w gweld yn yr Amgueddfa Babyddol yn Rawson.

Gallwch ddarllen y gerdd ar dudalen tri.

Yn ystod oriau mân fore dydd Sul, canwyd 'Hen Wlad Fy Nhadau' i ddod â'r cystadlu i ben, a phawb yn barod am eu gwelyau ar ôl dau ddiwrnod prysur o gystadlu.

Ac i gloi'r penwythnos, cynhaliwyd Cymanfa Ganu yng Nghapel Bethel, Trevelin. Roedd y canu'n angerddol y bore hwnnw, ac roedd yn gyfle i ffarwelio â hen ffrindiau cyn troi tuag adref.

Clecs Camwy 1

Lois Dafydd

# Pen Blwydd Hapus Clecs Camwy!

Mae Clecs Camwy yn dathlu ei ben blwydd yn flwydd oed. Ar y 3ydd o Fehefin 2011 cafodd rhifyn mis Mai - y rhifyn cyntaf - y papur bro ei lansio mewn noson arbennig yn Neuadd Ddiwylliant y Gaiman. Perfformiodd cerddorion lleol, ar gân ac ar offerynnau. A'r prynhawn canlynol cafwyd sgyrsiau difyr yn Neuadd Dewi Sant Trelew gan rai o drigolion yr ardal, yn ogystal â chanu, dawnsio ac adrodd gan blant lleol.




Cafodd y lansiad sylw yn y wasg yng Nghymru, er enghraifft ym mhapur newydd Y Cymro, gwefan BBC Cymru, a gwefan Golwg360. Ers hynny, mae 'Clecs' wedi cael ei gyhoeddi yn fisol - ac eithrio deufis dros yr haf - yn llawn newyddion, lluniau a hanesion o Ddyffryn Camwy a'r tu hwnt. Ry'n ni wedi darllen am ymweliadau â Chymru, cystadlu brwd yn yr eisteddfodau, cyngherddau, a gwahanol weithgareddau.



Daethpwyd i adnabod rhai o drigolion Dyffryn Camwy dros y flwyddyn ddiwethaf wrth iddyn nhw ateb ein cwestiynau yn yr adran 'Holi...' Peidiwn ag anghofio cornel y plant, y posau, a chornel y dysgwyr. A tybed faint ohonoch chi sydd wedi rhoi cynnig ar rai o'r ryseitiau blasus?! Cacen gaws, crymbl afalau, cawl cennin, cyri cyw iâr, pwdin bara menyn... Mae eu rhestri yn ddigon i dynnu dŵr i'r dannedd!



Mae'r papur hefyd ar gael i'w ddarllen ar ffurf electronig ar wefan Menter Patagonia: **www.menterpatagonia.org** Felly gall pobl ledled Dyffryn Camwy a thu hwnt fwynhau rhywfaint o glecs!



Diolch o galon i bawb sydd wedi cefnogi'r papur dros y flwyddyn ddiwethaf!





Os hoffech chi ysgrifennu rhywbeth ar gyfer Clecs Camwy neu ei noddi, cysylltwch â Lois Dafydd:
loisdafydd@menterpatagonia.org



# Capel Glan Alaw
# 1887 - 2012

Cafodd Capel Glan Alaw ben blwydd go arbennig yn ddiweddar, wrth iddo droi'n 125 mlwydd oed ar y 15fed o Fai.

Er nad yw'r rhesymau dros adeiladu Capel Glan Alaw na phenderfyniad pwy ydoedd yn glir, rhoddwyd y tir gan Owen Jones Glan Alaw. Bu'r bardd William Hughes Glan Caeron a'r cerddor Dalar Evans hefyd yn amlwg yn hanes codi'r capel. Cafodd y capel ei enwi ar ôl yr ardal lle mae'n sefyll, ac mae dau addoldy arall gerllaw Glan Alaw, sef Capel Bethesda ac Eglwys Dewi Sant. Dim ond un ystafell sydd yng Nghapel Glan Alaw, sy'n adeilad 5m x 10 m x 5m, a hwn yw'r lleiaf o gapeli Cymreig Dyffryn Camwy.



I gyd-fynd â'r dathliadau, Glan Alaw oedd cartref cymanfa ganu Cymdeithas Dewi Sant ym mis Mai. Afraid dweud fod y capel yn orlawn ar brynhawn Sadwrn y 19eg, a rhai yn sefyll wrth y drws a'r tu allan wrth i'r canu ddechrau dan arweiniad Rebeca White. Codwyd y canu gan Gladys Thomas, Edith Macdonald, Judith Jones a Marli Pugh hefyd. Darllenodd Luteria Williams Salm 122, sef sail neges y Parch. Carlos Ruiz a soniodd am bwysigrwydd capel fel lle i gyfarfod, i gymuno, i lawenhau, i ddathlu, ac i addoli Duw. Dadorchuddiwyd plac a oedd yn rhodd gan Gymdeithas Dewi Sant i nodi'r achlysur arbennig, a rhannodd Anita Lewis rywfaint o hanes ei theulu yn ardal Glan Alaw. Darllenodd Lois Dafydd Effesiaid pennod 2 cyn i'r Parch. Alejandro Garabano arwain y dorf yn y fendith. Gadawodd bawb y capel dan ganu 'Calon Lân', a chafodd te ei weini ar dir y capel ar gyfer y bobl oedd wedi dod i ddathlu achlysur arbennig iawn.

Pen Blwydd Llawen Capel Glan Alaw!

---

# Capel Salem
# 1912 - 2012



Dathlodd Capel Salem ei ben blwydd yn 100 oed fis Mai!

Dechreuodd oedfaon gael eu cynnal yn Lle Cul mor gynnar ag 1887, yng nghartref David Jenkins. Ond yn 1912 cafodd Capel Salem ei adeiladu gan Derfel Roberts, gyda chymorth James Rowlands a'i fab Ioan. Hwn ydy'r unig gapel sydd wedi cael ei adeiladu yn gyfan gwbl â sinc - y waliau a'r to - ond pren sydd ar y tu fewn. Yn ogystal â chael adeilad i addoli ynddo, un o'r amcanion wrth godi Capel Salem oedd ei ddefnyddio yn ysgol ar gyfer plant yr ardal. Erbyn heddiw, mae oedfaon yn cael eu cynnal yng Nghapel Salem yn achlysurol, ac mae Ysgol Lle Cul gyferbyn â'r adeilad.

# ‘Día de la Patria’




Roedd y 25ain o Fai yn ddiwrnod o ddathlu ledled yr Ariannin. Fel bob blwyddyn arall, ry’n ni’n dathlu ‘Día de la Patria’ ar y diwrnod hwn i gofio sefydlu llywodraeth gyntaf yr Ariannin. Enw’r llywodraeth gyntaf oedd y ‘Primera Hunta’, a chafodd ei sefydlu ar 25 Mai 1810 - hwn oedd y cam cyntaf yn Rhyfel Annibyniaeth yr Ariannin.

Roedd y diwrnod yn un o wyliau drwy’r Ariannin gyfan gyda gwyn a glas i’w gweld ym mhob man, a chynhaliwyd nifer o seremonïau ledled y wlad i gofio’r digwyddiad hanesyddol. Oherwydd y gwyliau cynhaliodd Ysgol yr Hendre Trelew eu dathliad nhw ar y 24ain o Fai, a chafodd y plant frecwast arbennig o facturas, pastelitos, a siocled poeth i ddechrau’r diwrnod. Cariodd Mercedes Meza White y faner wrth i bawb ganu’r anthem, cyn perfformio drama fer a ysgrifennwyd gan Alcira Williams a Marcia Teles ynglŷn â’r hanes. Ymunodd Ysgol Feithrin y Gaiman yn y dathliadau yng nghampfa’r pentref, lle’r oedd y plant, rhieni ac athrawon yn canu ac yn dawnsio mewn gwisgoedd arbennig wrth gyfleu hanes annibyniaeth yr Ariannin.



Mae’n draddodiadol bwyta locro ac empanadas ar y 25ain o Fai, gyda nifer fawr o bobl ledled yr Ariannin yn treulio’r diwrnod yn dathlu gyda’r teulu.




# Diwrnod yr Amgueddfeydd

Roedd y 18fed o Fai yn Ddiwrnod yr Amgueddfeydd, felly penderfynodd Amgueddfa’r Gaiman nodi’r achlysur gyda digwyddiad arbennig. Roedd mynediad i’r amgueddfa am ddim drwy’r prynhawn a’r ymwelwyr yn cael eu croesawu gan arogl cartrefol iawn o’r ystafell gefn, lle’r oedd Tegai Roberts a Lois Dafydd yn paratoi pice bach ar yr hen bopty. Roedd y maen mawr trwm yn llawn o’r danteithion blasus a oedd yn rhad ac am ddim i’r sawl oedd yn ymweld â’r amgueddfa, a chopïau o’r rysáit ar gael iddyn nhw roi cynnig ar y pice bach adref.



Paratowyd arddangosfa o *agarraderas* hefyd, a degau ohonyn nhw oedd wedi cael eu gwneud gan wragedd lleol yn hongian yn lliwgar ar y waliau. Braf oedd gweld pobl leol yn ogystal ag ymwelwyr yn cefnogi’r amgueddfa ar y diwrnod arbennig hwn.



# Holi Olga Edwards...

1. **Ble cawsoch chi eich geni?** *Yn y Gaiman.*
2. **Beth ydy eich atgof cynharaf?**
   *Dwi'n cofio chwarae efo fy nghefndryd. Chwarae cuddio, mynd i'r bryniau i gerdded, a chwarae 'payana'.*
3. **Ble a sut ddysgoch chi Gymraeg?**
   *Pan oeddwn i'n blentyn roeddwn i'n arfer clywed y Gymraeg, ond yn siarad Saesneg yn y cartref. Yna, ym Madryn dechreuais i ddysgu gyda Gwilym Roberts yn y capel ar 17 Hydref 1991. Roeddwn i arfer dysgu a siarad ychydig yn y capel yn Gaiman pan oeddwn i'n iau.*
4. **Beth ydy eich hoff air Cymraeg?** *Camgymeriad.*
5. **Beth ydych chi'n hoffi/ddim yn hoffi ei wneud?**
   *Dwi'n hoffi gweithio yn yr ardd a choginio pob math o fwydydd. Ond mae'n well gen i fwydydd hallt. Dwi ddim yn hoffi smwddio!*
6. **Pryd ddechreuoch chi goginio?**
   *Pan oeddwn i'n blentyn, tua deuddeg oed, roeddwn i'n helpu Mam i goginio bwy dydd fel tatws stwnsh, pice bach a stiw.*
7. **Ydych chi'n mwynhau coginio unrhyw fwyd yn arbennig?**
   *Dwi'n mwynhau coginio bwydydd y môr. Ond hefyd jamiau, 'lemon cheese', mins peis, a dwi'n gallu gwneud asado! Mae fy nheulu i'n hoffi popeth dwi'n ei goginio.*
8. **Beth oedd eich swydd?**
   *Roeddwn i'n athrawes plant bach yn y Gaiman, ac yn athrawes Mathemateg yn y Camwy am ychydig. Wedyn bues i'n gweithio yn Banco Chubut yn Gaiman.*
9. **Beth yw eich hoff/cas fwyd?** *Dwi'n hoffi pysgod a sglodion. Dwi ddim yn hoffi afu!*
10. **Ble mae eich hoff le yn y byd?** *Gaiman.*

# Gwener Gwenu

Penderfynodd athrawes Gymraeg Ysgol Camwy, Caren Jones, ddod â phlant dosbarth 7 Ysgol Aliwén ac Ysgol Camwy sydd newydd ddechrau dysgu Cymraeg at ei gilydd i fwynhau 'Gwener Gwenu'. Cynhaliwyd gwahanol weithgareddau er mwyn i'r plant ymarfer y Gymraeg rhwng 2 a 4 o'r gloch brynhawn Gwener yr 11eg o Fai yng Nghanolfan Arturo Roberts, dan ofal Caren Jones, Lois Dafydd (Menter Patagonia) a Pedr McMullen, a daeth rhai o ddisgyblion hynaf Camwy ac Aliwén i estyn help llaw. Roedd gêmau parasiwt gyda'r lliwiau, gêmau rhifau, a gêmau bwyd, yn ogystal â chanu, sgwrsio, a dawnsio gwerin. Gan fod y prynhawn yn un oer ofnadwy, roedd hi'n braf cael bod yn gynnes dan do! Cafodd pob un o'r disgyblion 'alfajor' i'w fwyta ar y ffordd adref, a gadawodd bawb Ganolfan Arturo Roberts yn gwenu!



# Pwy ydy Elliw Baines Roberts?



Helo! Elliw dwi, a fi ydy'r athrawes Gymraeg newydd yn Gaiman a Threlew. Dwi yma bellach ers tri mis ac yn teimlo'n gartrefol a hapus iawn! Dwi'n dod o bentref bach yng Ngogledd Cymru o'r enw Capel Garmon ger Betws Y Coed a Llanrwst, yn Nyffryn Conwy. Fi yw'r hynaf o dri o blant; mae Tomos fy mrawd yn 23 ac Eurgain fy chwaer yn 20. Enw Dad yw Huw a Mam yw Sioned. Dwi'n byw ar fferm odro (gwartheg friesian) ac wrth fy modd gydag anifeiliad. 28 o fuchod sy'n godro ar hyn o bryd a phob un â'i enw! Efallai eich bod yn gwybod yn barod bod gen i ddwy fuwch o'r enw Jini a Popi (sy'n fam a merch) a chafodd Popi lo bach gwryw brîd 'belgian blue' yn ddiweddar. Ar ôl derbyn llun penderfynais ei enwi'n 'Danilo'. Mae cŵn ar y fferm hefyd, sef Jet a Fflei a dwi'n lwcus o gael eu gweld nhw ar *Skype* pan dwi mewn cysylltiad ar y we efo'r teulu!

Graddiais o Brifysgol Bangor yn 2008 mewn Theatr a'r Cyfryngau. Symudais i Gaerwrangon yng Ngorllewin Lloegr am flwyddyn i weithio yn y gegin mewn spa harddwch yn Malvern cyn gweithio mewn ysgol anghenion arbennig gyda phlant 3-18 oed. Profiad gwych, a rhywbeth y buaswn i'n hoffi ei wneud eto. Dychwelyd i Ogledd Cymru wnes i yn 2010 yn gweithio i gwmni teledu Antena yng Nghaernarfaon yn cyflwyno Uned 5 ac Uned 5 ar y we am ryw flwyddyn. Fis Medi 2010 dychwelais i Brifysgol Bangor a dilyn cwrs ôl-radd mewn addysg gynradd, a fis Gorffennaf 2011 graddio fel athrawes gynradd. Cyn cael y swydd yma yn y Wladfa roeddwn yn athrawes lanw gyda phlant 3-11 mewn gwahanol ysgolion yn yr ardal, a mynd i Lanelli yn Ne Cymru ar ddydd Mercher i ffilmio slot cylchgronau yn fyw ar raglen Wedi 3. Roeddwn i wrth fy modd!

Dwi'n aelod o Glwb Ffermwyr ifanc Llanrwst a chyn gadael am Batagonia fi oedd yr is-ysgrifennydd, yn gyfrifol am gynnal nosweithiau ar gyfer y clwb a threfnu tripiau a'r parti Dolig wrth gwrs! Roeddwn mewn tîm tynnu rhaff merched gan guro gweddill tîmau merched Eryri yn 2010, ac rwyf hefyd yn cystadlu gyda'r ffermwyr ifanc yn canu yn y côr a pharti canu, adrodd digri, actio a gwneud gwaith creadigol a choginio. Dwi wrth fy modd yn coginio! Pwdinau o bob math yn bennaf, ond dwi'n barod i roi tro ar unrhyw beth.

Mae hi wedi bod yn freuddwyd cael dod i Batagonia oherwydd yr hanes a'r cysylltiad gyda Chymru, ac mae gen i deulu yma. Gwych yw cael y cyfle i gwrdd â Sybil a Vilda eto, a chyfarfod â mwy o'r teulu. Hoffwn gymryd y cyfle i ddiolch o galon i bawb sydd wedi fy nghroesawu a bod o gymorth i mi ers i mi gyrraedd nôl ym mis Chwefror. Edrychaf ymlaen yn fawr at weddill fy amser ym Mhatagonia. Cofiwch gysylltu os hoffech fynychu un o'r gwersi Cymraeg! Ac os gwelwch chi fi, dewch draw i ddweud helo - ond dwi ddim y gorau am gofio enwau felly efallai bydd raid i chi fy atgoffa!



# Ffarwelio a Chroesawu yn Nhrelew

Daeth Ysgol yr Hendre a Chymdeithas Dewi Sant Trelew at ei gilydd i gynnal noson i ffarwelio â Pedr McMullen ac i groesawu Sara Jones ar nos Sadwrn y 5ed o Fai. Bu Pedr yn dysgu blynyddoedd 4, 5, a 6 yr ysgol yn wirfoddol am dri mis, ac mae Sara Jones o Ddyffryn Nantlle newydd gyrraedd i gymryd yr awenau. Cynhaliwyd y noson yn yr uwch ystafell yn Neuadd Dewi Sant Trelew. Roedd disgyblion Pedr yno, eu rhieni a charedigion yr ysgol. Bu dawnsio gwerin brwdfrydig a hefyd tipyn o ganu, heb sôn am y wledd o 'empanadas' a phitsas blasus! Cafwyd cydnabyddiaeth i waith Pedr a throsglwyddodd y plant amryw o anrhegion iddo; rhoddodd y Cylch Cymraeg docyn teithio i Mendoza iddo, ynghyd â llety mewn gwesty yno am wythnos er mwyn rhoi cyfle iddo ymlacio ar ôl y gwaith caled a chyn iddo droi am adref. Roedd hi hefyd yn ben blwydd ar yr athrawes Gymraeg, Elliw Baines Roberts, felly canwyd 'Pen Blwydd Llawen' iddi. Daeth y noson i ben yn reit hwyr, a phawb wedi mwynhau yn fawr iawn!

# Noson Gyri



Ar ôl misoedd o ddisgwyl yn eiddgar, cynhaliodd Menter Patagonia Noson Gyri yn y Gaiman ar nos Sadwrn y 19eg o Fai. Daeth criw bach i gegin Plas-y-Coed ar gyfer gwers ar sut i goginio cyri cyw iâr gydag Ana Chiabrando am 18.30, cyn i ryw hanner cant o blant ac oedolion gyrraedd i flasu'r bwyd. Roedd tri math gwahanol o gyri ar gael wedi'u paratoi gan Ana Chiabrando ac Esyllt Roberts - cyw iâr, cig eidion, a phwmpen - digon o reis, a dewis o gatwad i ychwanegu lliw a blas at y plât. Roedd rhai wedi cael cymaint o flas ar y bwyd nes iddyn nhw ail-lenwi eu platiau cyn eu gwagio unwaith eto!

Ar ôl clirio'r platiau gwag daeth y pwdin, a Swis Rôl gyda dewis o jam llaeth neu hufen a mefus ar gyfer y sawl oedd wedi cadw lle ar ôl y prif gwrs. Ac wrth i bawb fwynhau'r pwdin, rhannwyd yn dîmau ar gyfer cwis bwyd oedd wedi'i baratoi gan Elliw Baines Roberts. Cafodd bawb hwyl yn rhoi cynnig ar ateb y gwahanol gwestiynau, a bellach yn gwybod mai'r afon farch (hipopotomws) oedd yn y cawl cyntaf, bod gwartheg yn bwyta am wyth awr bob dydd, a bod angen deuddeg gwenynen i gynhyrchu llwy de o fêl. Llongyfarchiadau i'r tîm buddugol, Blodyn!

Aeth y noson yn ei blaen i gyfeiliant Billy Hughes ar y gitâr, a llanwyd yr ystafell gyda chanu braf - 'Milgi Milgi', 'Ar Lan y Môr', 'Moliannwn', 'Y Mochyn Du', a nifer o ganeuon traddodiadol yr Ariannin hefyd, gan gynnwys 'Las Golondrinas'. Wrth gwrs, y gân i gloi'r noson oedd 'Hen Wlad Fy Nhadau'. Roedd hi'n noson braf iawn, a phawb yn edrych ymlaen yn eiddgar at y Noson Gyri nesaf yn barod wrth droi am adref!



# Porth Madryn

Ar noson oer a gwyntog ym Mhorth Madryn, mentrodd rhyw hanner dwsin o bobl i Dŷ Toschke ar gyfer noson o weithgareddau Cymraeg dan ofal Lois Dafydd, Menter Patagonia, ar y 18fed o Fai. Ond rhaid oedd cael baned o de yn gyntaf, a'r adeilad wedi'i llenwi ag arogl braf wrth i Betty Morgan bobi sgons yn y gegin! Ar ôl tipyn o sgwrsio - am fwyd a choginio yn bennaf - dechreuodd y gweithgareddau, gan ganolbwyntio ar yr ansoddeiriau.




Roedd y te yn dal i lifo wrth i ni ddarllen cwpl o erthyglau Clecs Camwy gyda'n gilydd cyn eu defnyddio yn sail i gêmau geiriau. Y weithgaredd olaf oedd gwylio'r rhaglen 'Cof Patagonia' oedd yn olrhain hanes blynyddoedd cyntaf y Wladfa trwy gyfrwng cyfweliadau a lluniau, ac roedd yn rhaid gwylio gyda llygaid barcud er mwyn ateb y cwestiynau oedd i ddilyn! Cafwyd trafodaeth ddifyr ar y rhaglen cyn i bawb ffarwelio â'i gilydd nes y byddwn ni'n cwrdd unwaith eto. Diolch i bawb am y croeso!

Mae dosbarthiadau Cymraeg Porth Madryn yn cael eu cynnal gan Lorena Peralta yn Nhŷ Toschke bob nos Wener: Cwrs Uwch 18.00-20.00, a'r WLPAN 20.00-21.30.

## Cornel y Dysgwyr — *Rincon de aprenda Galés*

### Y Teulu / *La Familia*

| | |
|---|---|
| Oes teulu gyda ti? | *Tenés familia?* |
| Oes brodyr a chwiorydd gyda ti? | *Tenés hermanos?* |
| Oes, mae brawd / chwaer gyda fi. | *Si, tengo un hermano/a.* |
| Nac oes, does dim brodyr a chwiorydd gyda fi. | *No, yo no tengo hermanos.* |
| Gŵr / Gwraig. | *Marido / Esposa* |
| Cefnder / Cefnither. | *Primo / Prima.* |
| Taid / Nain. | *Abuelo / Abuela.* |
| Ŵyr / Wyres. | *Nieto / Nieta.* |
| Ewythr / Modryb. | *Tío / Tía.* |
| Nai / Nith. | *Sobrino / Sobrina.* |
| Mab / Merch. | *Hijo / Hija.* |



## Diolch yn fawr i gyfranwyr a noddwyr y rhifyn hwn...

PLAS HEDD
Complejo Turístico
Fflatiau moethus a heddychlon ger môr Madryn.
(02965)471357
Stryd F.L. Beltrán 1644/1626

*Plas-y-Coed*
Tŷ Te hynaf Gaiman.

Croeso Cymreig a the traddodiadol ers 1944.
Heol Michael D. Jones 123, Gaiman.

TeithiauTango
Dewch i weld y Wladfa
10002 ATOL PROTECTED
www.teithiautango.co.uk
Cwmni teithio o Aberystwyth sy'n arbenigo yn y Wladfa.

Nwyddau ar gyfer ffermwyr yn Nhrelew
camposur
SERVICIOS AGROPECUARIOS
CHILE 32 Tel:(02965)436259-Tw.

*Gwalia Lân*
Bwyty safonol gydag awyrgylch Gymreig a chroeso cynnes.

Cornel Heol Eugenio Tello a Heol Michael D. Jones, Gaiman.

# Catwad Afalau
## - yn berffaith gyda chyri, caws neu gigoedd oer

Cynhwysion:
1kg o afalau wedi'u torri yn ddarnau bach
450g o winwns/nionod wedi'u torri yn ddarnau bach
300g o finegr gwyn
350g o siwgr brown
100g o resins
Tipyn bach o bob un o'r sbeisys yma: cardamom, tsili sych, sinamon, clôf, coriander, powdr sinsir, pupur du, hadau mwstard.
2 lwy de o sinsir ffres wedi'i falu

Rhowch hanner y finegr mewn sosban a rhowch y winwns ynddo.
Coginiwch am 10 munud.

Ychwanegwch yr afalau a gweddill y finegr, siwgr, resins, a'r sbeisys.
Coginiwch yn araf gan droi y gymysg bob hyn a hyn.

Bydd y catwad yn barod pan fydd yn debyg i jam.




## Idiomau a Dywediadau Cymraeg

Roedd croesair mis Ebrill yn canolbwyntio ar idiomau a dywediadau Cymraeg. Felly yn yr adran newydd hon bydd un idiom neu ddywediad yn cael ei esbonio bob mis. Tybed a fyddwch chi'n gallu eu defnyddio mewn sgwrs...


**Dros ben llestri.**

*Arriba de la vajilla.*

Pan fo rhywun yn gor-ddweud.
*Cuando uno hace algo en una manera exagerada.*

Ces i bum teisen ar fy mhen blwydd - doedd dim eisiau mynd dros ben llestri!
*Recibi cinco tortas en mi cumple - no hacia falta hacer tanta cosa!*

# Croesair Rhifyn Mis Mai



<u>AR DRAWS</u>

1. ARDDANGOSFA BETH OEDD YN AMGUEDDFA'R GAIMAN? (11)
4. PA GAPEL SY'N DATHLU 125 MLYNEDD? (4, 4)
5. BETH OEDD YN CAEL EU COGINIO YN AMGUEDDFA'R GAIMAN? (4, 3)
7. PWY RODDODD Y TIR I ADEILADU CAPEL GLAN ALAW? (4, 5)
8. CHWILAIR ___________ (6)
9. O BLE MAE ELLIW YN DOD? CAPEL _______ (6)
11. PA GYRI CAFODD EI GOGINIO YN Y DOSBARTH CYRI? (3, 3)
14. PWY SY'N DATHLU EI BEN BLWYDD YN FLWYDD OED? (5, 5)
16. BETH OEDD 18 MAI? DIWRNOD YR ______ (10)

<u>I LAWR</u>

1. BETH YDY'R RYSAIT? CATWAD _____ (6)
2. IDIOM YR WYTHNOS (4, 3, 6)
3. LLIWIO PWY? (5, 7)
5. BLE CYNHALIWYD Y NOSON GYRI? (4, 1, 4)
6. BLE MAE TŶ TOSCHKE? (4, 6)
8. BLE MAE CAPEL SALEM? (2, 3)
10. AR BA STRYD MAE SIOP 'CAMPOSUR'? (4)
12. AM SAWL AWR MAE BUWCH YN BWYTA BOB DYDD? (3)
13. PA DDWY YSGOL AETH I 'GWENER GWENU'? CAMWY AC _______ (6)
15. BETH DYDY OLGA DDIM YN HOFFI EI WNEUD? (6)

**Cofiwch fod 'ch', 'dd', 'ff', 'ng', 'll', 'rh' 'th' yn un llythyren!**

## Geirfa'r Mis — *Vocabulario del Mes*

| | | | |
|---|---|---|---|
| difyr | ***interesante*** | hongian | ***colgar*** |
| ac eithrio | ***aparte de*** | cefndryd | ***primos*** |
| y tu hwnt | ***más alla*** | hallt | ***salado*** |
| afraid dweud | ***no hay que decir*** | hynaf | ***la más grande (edad)*** |
| gweini | ***servir*** | amcan(ion) | ***objetivo(s)*** |
| rhaff | ***una cuerda*** | arddangosfa | ***una exposición*** |
| cartrefi | ***casas*** | idiom(au) | ***idimoma(s)*** |
| arogl | ***olor*** | dywediadau | ***dicho(s)*** |
| rysáit | ***una receta*** | dan do | ***adentro*** |
| ysgol anghenion arbennig | | ***escuela especial*** | |

# Cornel y Plant

Llongyfarchiadau Gweneira Hughes am liwio Jac y Jwc!

Lliwiwch Tomos Caradog

Anfonwch eich lluniau at Lois Dafydd erbyn 24 Mehefin 2012 am gyfle i ennill gwobr!



## Chwilair Lliwiau

| | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| s | c | f | p | i | n | c | ll | r | dd | b | f | b |
| t | e | d | o | p | l | h | b | g | w | y | n | h |
| g | w | y | r | dd | b | ch | m | c | r | n | b | u |
| l | t | ph | ff | y | s | d | p | a | b | l | g | j |
| a | r | i | o | r | e | n | ng | s | r | w | f | ng |
| s | u | l | r | a | p | w | m | c | o | ch | e | r |
| f | g | c | s | i | ff | l | a | s | w | g | c | g |
| s | d | u | d | h | m | e | l | y | n | b | o | p |
| a | e | c | p | b | o | p | n | r | d | i | s | l |

Glas
Coch
Gwyrdd
Melyn
Oren
Porffor
Pinc
Brown
Du
Gwyn

Os hoffech chi ysgrifennu neu gyfrannu at 'Clecs Camwy', neu ei noddi, cysylltwch â Lois Dafydd: loisdafydd@menterpatagonia.org 2804 386 198